Uned 6F: Cyfuno Delweddau Llonydd, Fideo Digidol, Sain a/neu Animeiddiad

Ynghlyn â'r Uned:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu sut i gynllunio a chreu stori neu naratif gan ddefnyddio; camerâu digidol, camerâu fideo digidol neu gwe-gam ynghyd â thestun, seiniau, animeiddio a cherddoriaeth i greu cyflwyniad amlgyfrwng. Byddant yn cael eu hannog i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth a ddysgwyd mewn unedau blaenorol eisoes i greu cyflwyniadau sy'n ymwybodol o anghenion eu cynulleidfa. Disgwylir i ddisgyblion ddewis y meddalwedd mwyaf priodol at eu dibenion penodol.

Yn yr uned hon mae plant yn cydweithio ac yn dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau recordio, sy'n weledol ac yn glywedol mewn cyd-destun sydd wedi'i gynllunio a'i strwythuro i greu stori neu naratif amlgyfrwng. Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth gyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth mewn cerddoriaeth, celf, hanes, dylunio a thechnoleg, addysg grefyddol, y Cwricwlwm Cymreig a Saesneg.

Ble mae'r uned hon yn ffitio:

Mae'n adeiladu ar waith y rholl unedau blaenorol sy'n gysylltiedig â chreu cyflwyniadau amlgyfrwng a recordio seiniau

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod y plant:

- wedi creu cyflwyniadau amlgyfrwng sy'n ymwybodol o anghenion eu cynulleidfa
- yn deall sut i recordio seiniau a defnyddio camerâu digidol
- yn gyfarwydd ag ystod o feddalwedd cyflwyno

Geirfa:

delweddau digidol | clipiau fideo | recordio | mewnosod | dal | gwe-gam | trawsnewidiadau

Adnoddau:

Camera digidol llonydd a/neu gamera fideo digidol | meddalwedd sy'n caniatáu cyfuniad o ddelweddau, clipiau fideo, testun, sain a cherddoriaeth | meddalwedd animeiddio | taflunydd | sgrîn arddangos fawr neu fwrdd gwyn | Rhyngrwyd | CD-ROM | plastisin | gwe-gam

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: creu a chyflwyno stori neu naratif sy'n cynnwys delweddau llonydd, clipiau fideo, testun, teitlau, sain a cherddoriaeth ac animeiddio gan ddefnyddio modelau a meddalwedd animeiddio fesul saethiad.

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: creu a chyflwyno naratif neu stori sy'n cynnwys delweddau llonydd a darn o gerddoriaeth ac animeiddio sy'n defnyddio modelau ac animeiddio fesul saethiad.

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: dewis meddalwedd priodol ar gyfer tasg benodol, gwneud y dewis yn seiliedig ar y math o gyflwyniad a'r arddull sy'n fwyaf addas i'r pwnc a'r gynulleidfa dan sylw, gan roi rhesymau dros eu dewis. Bydd eu cyflwyniadau'n dangos y defnydd o ddelweddau llonydd, clipiau fideo, testun, teitlau, sain a cherddoriaeth ond dylai trawsnewidiadau ac amseriadau fod wedi'u hystyried hefyd.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolRwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Gosod yr Olygfa • **pwynt allweddol:** bod amrywiaeth o feddalwedd cyflwyno ar gael ac arddulliau ac effeithiau gwahanol ganddynt y gellid eu defnyddio i ddatblygu naratif. • Mae'n bwysig dewis y meddalwedd mwyaf priodol ar gyfer y dasg.	• Dangoswch dri chyflwyniad byr i'r disgyblion sy'n defnyddio meddalwedd gwahanol i ddweud stori fer neu egluro cerdd e.e. sioe sleidiau o ddelweddau llonydd sydd â symudiad awtomatig, fideo o glipiau ffilmiau sydd wedi'u golygu am effaith ac animeiddio sydd wedi'i greu drwy ddefnyddio gwe-gam a thechneg animeiddio fesul saethiad. Dylai pob un gynnwys testun a sain a/neu gerddoriaeth. • Dylid trafod manteision ac anfanteision y mathau gwahanol o feddalwedd yn ogystal â nodi awgrymiadau ynghylch y defnydd mwyaf effeithiol a phriodol o bob un.	• Siarad am nodweddion mwyaf effeithiol y cyflwyniadau amrywiol a deall bod cyfyngiadau gan feddalwedd. • Deall bod cyflwyniad yn cyfleu ystyr ac y mae'n cael ei anelu at gynulleidfa briodol.	• Defnyddio'r Rhyngrwyd i ddod o hyd i ddelweddau priodol. • Mae'n rhaid cymryd gofal wrth dynnu delweddau oddi ar y Rhyngrwyd. Mae'n rhaid glynu wrth Bolisi Defnydd Priodol yr ysgol ar bob adeg.
Tasg Byr wedi'i Ffocysu • **pwynt allweddol:** bod delweddau sy'n cael eu cyfuno gyda cherddoriaeth briodol yn gallu cyfleu neges rymus. • **techneg:** creu cyflwyniad gyda theitl, delweddau a sain sy'n creu naws priodol ac yn cyfleu ystyr.	• Gan weithio mewn grwpiau bach, bydd disgyblion yn casglu delweddau o amrywiaeth o ffynonhellau fel CD-ROM, y Rhyngrwyd, delweddau sydd wedi'u sganio neu ddelweddau sydd wedi'u cadw ar gyfrifiadur yn barod, a chreu Stori Ffotograffau ar bynciau fel, Abertawe yn y Blits, Faciwîs, bywyd fel milwr yn ystod yr Ail Ryfel Byd, etc. a'u cadw mewn Ffolder ar y cyfrifiadur. • Mae'r disgyblion yn dewis trefn y delweddau ac yn dewis darn priodol o gerddoriaeth i fynd â'r delweddau. • Maen nhw'n mewnforio eu delweddau, yn ychwanegu teitl a'r gerddoriaeth a ddewisiwyd. Maen nhw'n golygu ac yn mireinio eu gwaith, ei gadw fel fideo a'i gyflwyno i'r dosbarth	• Cydweithio i gynllunio, trefnu a chasglu delweddau priodol i wneud cyflwyniad. • Mewnforio eu delweddau i mewn i'r feddalwedd, gan ychwanegu teitl a'r gerddoriaeth a ddewiswyd. • Golygu a mireinio eu gwaith i gael yr effaith fwyaf. • Cadw fel fideo a'i gyflwyno i'r dosbarth.	• Gallai pynciau eraill gynnwys arlunydd lleol a'i waith, delweddau o lygredd, graffiti neu ardaloedd lleol o harddwch naturiol eithriadol, delweddau o ddigwyddiadau chwaraeon pwysig neu ymweliad ysgol etc.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau Byr wedi'u Ffocysu (parhad)			
• **pwynt allweddol**: gellir defnyddio camerâu digidol i recordio clipiau fideo. Drwy ddefnyddio meddalwedd, gellir eu golygu a'u cyfuno â thestun, sain a cherddoriaeth i greu stori. • **techneg** : gweithio fel rhan o grŵp i gynllunio a dal cyfres o olygfeydd ar fideo sy'n gallu cael eu golygu i greu stori. • Ychwanegu teitlau, testun, sain neu gerddoriaeth sydd wedi'u recordio ar y fideo. • Dewis trawsnewidiadau ac amseriadau, golygu, mireinio a chadw gwaith.	• Dangoswch y camera digidol i'r plant. Dangoswch dechnegau fel defnyddio onglau camera gwahanol i greu effeithiau gwahanol. • Esboniwch eu bod yn mynd i weithio mewn grwpiau i gynllunio a chreu fideo naill ai ar gyfeillgarwch neu fwlio. Bydd pob grŵp yn cynllunio eu stori gan ddefnyddio bwrdd stori, gan bwysleisio onglau camera neu bwyntiau allweddol yn eu stori. Bydd yn rhaid iddynt benderfynu beth fydd pob aelod o'r grŵp yn mynd i'w wneud, wedyn actio'r golygfeydd gwahanol a'u recordio. • Unwaith mae pob golygfa wedi'i saethu, bydd yn rhaid eu mewnforio i'r meddalwedd priodol a golygu'r clipiau i greu eu stori ar ffilm. • Byddant yn ychwanegu teitlau, seiniau a cherddoriaeth os yw'n briodol, neu recordio eu lleisiau eu hunain, dewis trawsnewidiadau ac effeithiau. • Gan weithio fel grŵp, byddant yn golygu, mireinio a chadw gwaith ar y gweill fel prosiect, wedyn cadw'r ffilm olaf cyn ei dangos i'r dosbarth neu i'r ysgol gyfan yn ystod gwasanaeth boreol. • Dylid cynnwys trafodaeth ddosbarth ar gynnwys y ffilm a dylid annog y disgyblion i edrych am unrhyw dechnegau effeithiol a ddefnyddiwyd.	• Gydweithio i gynllunio bwrdd stori a defnyddio camera digidol i recordio golygfeydd • Mewnforio'r clipiau fideo i mewn i'r meddalwedd a'u golygu'n briodol. • Ychwanegu lleferydd, seiniau neu gerddoriaeth, teitlau a thestun. • Golygu, mireinio a chadw gwaith. • Cyflwyno eu ffilm i'r gynulleidfa darged. • Gwerthuso a thrafod arddulliau a nodweddion effeithiol y ffilm.	• Byddai cynnal trafodaeth ddosbarth ar y pynciau a ddewiswyd yn fan dechrau da i'r gweithgaredd hwn, a gellir llunio diagram llif o'r pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth i helpu canolbwyntio ar y pwyntiau allweddol y bydd angen eu datblygu. • Gellir rhoi cyfres o gwestiynau i blant llai galluog i'w helpu i ddechrau ar eu trafodaeth grŵp a chynllunio.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau Byr wedi'u Ffocysu (parhad)			
• **pwynt allweddol**: bod modelau a gwrthrychau difywyd yn gallu cael eu defnyddio gyda meddalwedd animeiddio fesul saethiad a gwe-gam i greu stori. • **techneg**: creu modelau a chefndiroedd i adrodd stori.	• Defnyddiwch rai enghreifftiau o lyfrau storïau i ysgogi trafodaeth ar leoliadau a chymeriadau. • Dangoswch rai enghreifftiau o animeiddiadau byr i'r plant gan ddefnyddo modelau clai. Esboniwch y rheolau ar gyfer creu modelau effeithiol i'w hanimeiddio. • Rhannwch y plant yn grwpiau o dri a gadewch iddynt ddewis lleoliad o'r drafodaeth e.e. jyngl, glan môr, parc, yr Arctig, anialwch, golygfa nos etc., wedyn gofynnwch iddynt greu cefndir a chelfi syml gan ddefnyddio papur, paent, cerdyn etc. a rhai modelau plastisin fel y cymeriadau yn eu stori.	• Gydnabod lleoliadau a chymeriadau gwahanol a datblygu eu syniadau eu hunain ar gyfer creu animeiddiad syml. • Gwneud cefndiroedd a modelau i'w defnyddio yn eu hanimeiddiad. • Cydweithio i gynllunio eu hanimeiddiad gan ddefnyddio bwrdd stori.	• Defnyddio plastisin addas a wneir gydag olew i atal y modelau rhag sychu.
Tasgau Byr wedi'u Ffocysu (parhad)			
• **techneg**: defnyddio gwe-gam a meddalwedd addas i recordio animeiddiad. • Ychwanegu effeithiau sain i wella animeiddiad.	• Dangoswch i'r plant sut i ddefnyddio'r gwe-gam a meddalwedd ac ychwanegu effeithiau sain i greu animeiddiad. • Mae'r disgyblion yn gweithio yn eu grwpiau ac yn recordio symudiadau'r animeiddiad • Wedyn maen nhw'n ychwanegu'r effeithiau sain. • Maen nhw'n golygu, mireinio a chadw gwaith ar y gweill. • Cadw eu gwaith ar ôl ei orffen a'i ddangos i'r gynulleidfa darged.	• Cydweithio i symud y modelau a recordio'u hanimeiddiad. • Ychwanegu effeithiau sain yn briodol i wella'r gweithrediadau. • Golygu, mireinio a chadw'r gwaith ar y gweill.	• Gellir ystyried grwpiau gallu cymysg ar gyfer y gweithgaredd hwn, oherwydd mae'r meddalwedd yn eithaf hawdd i'w ddefnyddio a gall gwneud modelau roi cyfle i bob disgybl wneud cyfraniad.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithioIrwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasg Asesu			
• **pwynt allweddol**: bod disgyblion yn gallu gweithio mewn grwpiau, gwneud dewisiadau o ran meddalwedd, arddulliau a thechnegau priodol a gweithio'n annibynnol i gynhyrchu cyflwyniad ar ffurff naratif neu stori.	• Paratowch rai cardiau gydag amlinelliadau o storïau syml, cerddi, lleoliadau, cymeriadau neu bynciau. Rhannwch y plant yn grwpiau bach a gadewch iddynt ddewis cerdyn. • Esboniwch wrth y plant mai'r cerdyn y byddant ei ddewis o'r cardiau uchod fydd y man cychwyn ar gyfer eu cyflwyniad. • Atgoffwch nhw am y meddalwedd gwahanol y maen nhw wedi bod yn ei ddefnyddio, ei gyfyngiadau a'i effeithiau etc. a meddwl am y meddalwedd mwyaf proidol i'w defnyddio ar gyfer y dasg y maen nhw wedi'i dewis. • Bydd y plant yn llunio cyflwyniad yn eu grwpiau, gan ddefnyddio'r cerdyn fel ysgogiad, ond nhw fydd yn dewis pa feddalwedd, caledwedd a thechnegau y bydd eu hangen arnynt i lunio'u cyflwyniad.	• Drafod yr opsiynau wrth ddewis eu tasg • Nodi'r meddalwedd mwyaf priodol i'w ddefnyddio ar gyfer y prosiect y maen nhw wedi'i ddewis, gan roi'r rhesymau pam • Gweithio'n annibynnol i lunio eu cyflwyniad a defnyddio'r offer a'r meddalwedd a ddewisiwyd. • Cadw a chyflwyno eu gwaith i'r gynulleidfa darged. • Gwerthuso eu gwaith a gwaith pobl eraill.	• Efallai bydd rhai disgyblion am gyfansoddi a recordio eu cerddoriaeth eu hunain i'w defnyddio yn eu cyflwyniad.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithioIrwydd Addysg